# Cynigion Blynyddoedd Cynnar BookTrust: Canfyddiadau gwerthusiad blwyddyn un

## Crynodeb o ganfyddiadau sy'n deillio o ymchwil BookTrust gyda theuloedd a phartneriaid cyflenwi blynyddoedd cynnar

### Cyflwyniad

BookTrust yw **elusen ddarllen blant fwyaf** y DU. Bob blwyddyn, byddwn ni'n cyrraedd **dros 1.5 miliwn o blant**, gan eu hysbrydoli â llyfrau, adnoddau a chefnogaeth a gynlluniwyd i helpu teuluoedd i ddechrau ar eu taith ddarllen. Byddwn ni'n darparu mwy o gefnogaeth a dargedwyd i deuluoedd incwm isel yn y blynyddoedd cynnar (rhai â phlant 0-7 oed). Gwyddom mai'r teuluoedd hyn allai elwa fwyaf o fanteision trawsnewidiol uniongyrchol a mwy hirdymor rhannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd.

### Ynglŷn â'r papur briffio hwn

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi gwersi a ddysgwyd o flwyddyn gyntaf cynigion Blynyddoedd Cynnar newydd BookTrust (Dechrau Da Plant Lleiaf / Dechrau Da Blwyddyn 1-2 a Dechrau Da Plant Cyn-ysgol / Dechrau Da Blwyddyn 3-4). Clywsom gan lawer o fewn ein rhwydwaith o bartneriaid darparu'r blynyddoedd cynnar eu bod nhw'n awyddus i weld beth rydyn ni wedi'i ddysgu, ac rydyn ni'n rhannu'r canfyddiadau hyn ar ddechrau cyflawni rhaglen 2023-2024.

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'n holl bartneriaid am eu gwaith er mwyn cyflwyno blwyddyn gyntaf y peilot ac am roi o'u hamser i rannu'u profiadau gyda ni. Rydyn ni'n teimlo cyffro o fod yn gwneud y cyfan eto gyda chi eleni!

Seilir y canfyddiadau hyn ar arolwg ar-lein o 224 o bartneriaid cyflenwi a 589 o deuluoedd, ymweliadau dysgu â lleoliadau, a chyfweliadau â phartneriaid a theuluoedd.

### Am ein cynigion Blynyddoedd Cynnar

Mae BookTrust yn **sefydliad sy'n dysgu**, gan osod tystiolaeth, ein partneriaid a'n teuluoedd wrth galon ein gwaith o gynllunio a gwerthuso ein rhaglen. Cafodd dyluniad cynigion y Blynyddoedd Cynnar ei lywio gan ein gwybodaeth am ddarllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar, tystiolaeth allanol ar newid ymddygiad a ffurfio arferion, ac addysg a phrofion helaeth gyda phartneriaid a theuluoedd.

Mesurodd gwerthusiad blwyddyn gyntaf cynigion Blynyddoedd Cynnar newydd BookTrust lwyddiant yn erbyn sawl **dangosydd effaith**. Canfyddiad y gwerthusiad yw bod y cynnig yn gweithio i danio brwdfrydedd a gwybodaeth teuluoedd am fanteision darllen a gwahanol ffyrdd o rannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd.






## Bu i ni gyrraedd bron i 400,000 o blant 1-4 oed ym mlwyddyn gyntaf y peilot.

Mae ein cynnig Blynyddoedd Cynnar yn un rhan o daith ddarllen Blynyddoedd Cynnar BookTrust ar gyfer teuluoedd. Mae'r cynnig Blynyddoedd Cynnar hwn yn cynnwys:

- Dechrau Da Plant Lleiaf (Dechrau Da Blwyddyn 1-2 yng Nghymru), pecyn teulu yn cynnwys dau lyfr, pyped bys, a syniadau am weithgareddau pellach, a sut i rannu straeon a rhigymau gyda'i gilydd.
- Dechrau Da Plant Cyn-ysgol (Dechrau Da Blwyddyn 3-4 yng Nghymru), pecyn teulu yn cynnwys dau lyfr, band pen i'w liwio (darperir creonau), a syniadau ar gyfer gweithgareddau pellach, a sut i rannu straeon a rhigymau gyda'i gilydd.
- Adnoddau storïwr i bartneriaid (pecyn gyda 10 llyfr delfrydol i'w rhannu gyda phlant 1-4 oed, gan gynnwys y teitlau o'r pecynnau teulu).[1]
- Amrywiaeth o gynnwys ar-lein i gefnogi partneriaid a theuluoedd i rannu straeon.

Mae ein cynnig Blynyddoedd Cynnar yn **rhaglen a dargedir**, a ddyluniwyd gyda ffocws penodol ar gefnogi teuluoedd incwm isel.[2] Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid darparu i amlygu teuluoedd a fyddai'n elwa fwyaf o'r rhaglen neu a allai fod angen mwy o help i wneud darllen ar y cyd yn rhan reolaidd o'u bywydau.

**Drwy gymryd rhan weithredol yn ein rhaglen Blynyddoedd Cynnar, rydych chi'n rhan o rwydwaith anhygoel o bartneriaid darparu, gan ddarparu dros 6,000 o lwybrau i deuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi helpu bron i 400,000 o blant 1-4 oed i brofi manteision darllen cynnar ar y cyd. Mae o leiaf 70% o'r plant hyn yn dod o deuluoedd incwm isel, a all elwa fwyaf o'ch cymorth.**

## Beth ydyn ni wedi'i ddysgu o flwyddyn gyntaf y cynnig?

### Mae plant yn dysgu rhywbeth newydd.

Dywedodd **85%** o deuluoedd fod eu plentyn wedi dysgu rhywbeth newydd am y byd o'u cwmpas o'r pecyn. Clywsom gan deuluoedd sut roedd y pecynnau wedi ysgogi plant i archwilio, datblygu sgiliau echddygol manwl, a dysgu geiriau a rhigymau newydd.

Roedd teuluoedd incwm is yn fwy tebygol o ddweud eu bod nhw wedi dysgu rhywbeth newydd o'r pecyn, naill ai am **fanteision darllen (77%**, o'i gymharu â 67% o deuluoedd yn gyffredinol) neu **wahanol ffyrdd** y gallen nhw rannu straeon gyda'u plant (**82%,** yn erbyn 78% o deuluoedd yn gyffredinol).

> "Mae'r pecynnau'n syniad hyfryd. Mae fy mab yn eu caru ac mae'n fy ysbrydoli i ddod o hyd i ragor o amser i archwilio straeon yn hytrach na mynd drwyddyn nhw'n gyflym ar gyfer amser gwely.
>
> **Teulu incwm isel sy'n derbyn pecyn Dechrau Da Plant Cyn-ysgol (3-4 yng), Lloegr**"

### Ailadrodd, ailadrodd, ailadrodd!

Po fwyaf o deuluoedd oedd wedi defnyddio pob llyfr, y mwyaf tebygol oedden nhw o ddweud bod eu plentyn wedi dysgu rhywbeth newydd am y byd o'u cwmpas.

Mae ailadrodd yn rhan **hanfodol** o ddatblygu arferiad darllen ac adeiladu sgiliau yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n gadarnhaol gweld bod cyfran uchel o deuluoedd yn defnyddio cynnwys y pecyn sawl gwaith.

---

1 Mae gan becynnau Storïwr yng Nghymru 10 llyfr ac mae gan y rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon 11.

2 Byddwn ni'n defnyddio'r term 'incwm isel' i ddynodi'r rhai sy'n byw mewn tlodi cymharol fel y'i diffinnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.



"Rydyn ni'n caru'r llyfrau. Mae fy merch eisoes wedi cofio Un Banana, Dau Bananas! Diolch!"

**Teulu sy'n derbyn pecyn Dechrau Da Plant Cyn-ysgol (3-4 yng), Lloegr**


## Mae cynigion y Blynyddoedd Cynnar yn cefnogi teuluoedd i ddarllen mwy.

Yn gyffredinol, dywedodd **77%** o deuluoedd fod y pecynnau wedi'u hysgogi i ddarllen a rhannu straeon yn fwy gyda'u plant. Roedd y newid mewn amlder darllen yn arbennig o amlwg mewn teuluoedd a oedd yn darllen llai na diwrnod yr wythnos cyn iddyn nhw dderbyn eu pecyn (dywedodd **95%** fod y pecyn wedi eu hysgogi i ddarllen mwy) ac ar gyfer teuluoedd incwm isel (**84%**, o gymharu â 74% o deuluoedd incwm uwch).

"Mae'r pecyn yn wych i gael plant i ddarllen gyda rhieni. Mwynheais y llyfrau, na fyddwn i ddim wedi eu darllen i fy merch fel arall."

**Teulu sy'n derbyn pecyn Dechrau Da Plant Lleiaf (1-2 yng), Lloegr**





## Mae cynigion y Blynyddoedd Cynnar yn cefnogi teuluoedd i barhau â'u teithiau darllen.

Mae ein pecynnau Dechrau Da yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall teuluoedd ddod o hyd i'w llyfrgell leol. Dywedodd dwy ran o dair o deuluoedd fod yr wybodaeth hon wedi'u hysgogi nid yn unig i ddod o hyd i'w llyfrgell agosaf, ond hefyd i ymweld â hi (**66%**). Efallai eu bod wedi ymweld ag un o'r **2,400 o lyfrgelloedd** ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cymryd rhan yn Amser Stori BookTrust neu Amser Stori BookTrust Cymru, ein harlwy blynyddoedd cynnar a leolir yn y llyfrgell! Gallwch ddarllen mwy am Amser Stori BookTrust yn ein hadroddiad gwerthuso diweddaraf, yma.

"Pecyn ardderchog wedi dod oddi wrth y feithrinfa. Mae fy mab wrth ei fodd yn darllen ac roedd yn llawn cyffro gyda'r holl weithgareddau a'r llyfrau hyfryd. Ar ôl darllen y pecyn hwn gofynnodd fy mab am gael ymuno â'r llyfrgell ac mae'n teimlo'n arbennig iawn gyda'i gerdyn llyfrgell ei hun. Menter ardderchog"

**Teulu incwm isel sy'n derbyn pecyn Dechrau Da Plant Cyn-ysgol (3-4 yng), Lloegr**

## Mae ein partneriaid yn chwarae rhan hanfodol yn nheithiau darllen ar y cyd cynnar teuluoedd.

Roedd teuluoedd a oedd yn cofio gweld adnoddau Storïwr (y rhai a gynlluniwyd i'w defnyddio gan ymarferwyr) neu eu pecyn teulu yn cael ei ddangos iddynt neu' cael ei sôn amdano gan ymarferwr yn fwy tebygol o:

- Ddysgu rhywbeth newydd am fanteision darllen (88% v. 71% o'r rhai na chafodd brofiad o hyn pan gawsant eu pecyn).
- Dysgu rhywbeth newydd am y gwahanol ffyrdd o ddarllen neu rannu straeon gyda'u plentyn (88% v. 77%).
- Darllen a rhannu straeon yn fwy gyda'u plentyn (90% v. 75%).

Mae hyn yn wych gweld, a bydd deall y gwahanol ffyrdd y mae ein partneriaid blynyddoedd cynnar yn esbonio'r pecynnau i deuluoedd, yn eu hannog a gwneud iddyn nhw deimlo'n gyffyrddus, ac yn eu cyffroi wrth ddarllen, yn **ffocws dysgu allweddol** i BookTrust eleni.

> "Roedd hi'n wych cael gweld sut y defnyddiwyd y llyfr, a bod mewn amgylchedd dysgu gyda rhieni eraill.
>
> **Teulu sy'n derbyn pecyn Dechrau Da Plant Lleiaf (1-2 yng), Lloegr**"

## Mae'r cynnig hwn yn helpu partneriaid i feithrin perthynas â theuluoedd.

Cynlluniwyd ein cynnig Blynyddoedd Cynnar i gefnogi partneriaid a theuluoedd i sefydlu arferion darllen ar y cyd o oedran ifanc. Mae'n wych gweld y canlyniadau cynnar yn awgrymu bod y cynnig yn gwneud yn union hynny. Rhan allweddol o hyn oedd sicrhau bod yr adnoddau'n helpu partneriaid i ymgysylltu â theuluoedd a dywedodd **9 o bob 10 partner** fod y pecynnau'n eu cefnogi i wneud hyn (**88%**).

Bydd rhai o'n partneriaid yn gweithio gyda theuluoedd bregus iawn a chlywsom ar sawl achlysur sut mae ein pecynnau'n cefnogi partneriaid i feithrin perthynas â theuluoedd. Er enghraifft, mae partneriaid wedi defnyddio'r pecynnau fel anrheg neu ffordd anfygythiol o wneud cyswllt cychwynnol â theuluoedd, neu i'w helpu i agor a ffurfio rhwymyn emosiynol ag ymarferwyr.

> "Bydd yr adnoddau hyn yn sicrhau y gallwn ni gynnig ffordd newydd o ymgysylltu â theuluoedd... ffordd i mewn pan fyddwch chi'n delio â phethau eraill sy'n achosi straen.
>
> **Cydlynydd Grymuso Teuluoedd, Canolfan y Merched**"

Mae hyn hefyd yn rhywbeth a glywsom gan ein partneriaid dros nifer o flynyddoedd, er enghraifft gan Ymwelwyr Iechyd sy'n darparu ein rhaglen Dechrau Da Babi i bob plentyn 0-12 mis oed yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn.

## Beth nesaf ar gyfer ein cynigion Blynyddoedd Cynnar?

**Diolch** i'r holl deuluoedd a phartneriaid a gymerodd ran ym mlwyddyn gyntaf Dechrau Da Plant Lleiaf / Dechrau Da Blwyddyn 1-2 a Dechrau Da Plant Cyn-ysgol / Dechrau Da Blwyddyn 3-4, ac i'r rhai a roddodd o'u hamser i rannu eu profiadau gyda ni. Rydyn ni'n ystyried yr holl adborth a'r mewnwelediadau a gyflwynwyd er mwyn gallu esblygu'r rhaglen hon a'n taith ddarllen blynyddoedd cynnar yn ei chyfanrwydd.

## Ein blaenoriaethau dysgu allweddol ar gyfer 23-24 yw:

- Deall sut y gallwn wella'r wybodaeth, y gefnogaeth a'r adnoddau a ddarparwn i'n partneriaid gwerthfawr. Rydyn ni'n gwybod bod hon yn ffordd newydd o weithio i lawer o'n partneriaid ac rydyn ni'n parhau i fuddsoddi yn ein cefnogaeth i chi er mwyn gwneud darparu'n haws ac yn fwy effeithiol. Yn seiliedig ar eich adborth, bu i ni lansio ein Canllaw Adnoddau Partner newydd yn ddiweddar i gefnogi partneriaid i gyflwyno'r rhaglen.
- Deall sut mae ein gwahanol gynigion blynyddoedd cynnar yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r effaith fwyaf posibl i deuluoedd.
- Deall sut mae profiadau teuluoedd wrth iddyn nhw dderbyn pecynnau Dechrau Da, a sut mae'r rhyngweithio a gânt â'n partneriaid darparu, yn llywio eu hymgysylltiad cychwynnol a pharhaus â darllen.
- Parhau i fesur effaith cynigion BookTrust, gan gynnwys dechrau mesur newidiadau yn ymddygiad darllen teuluoedd dros amser.

## Ynglŷn â BookTrust

Fel yr elusen ddarllen fwyaf i blant yn y Deyrnas Unedig, rydym am i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd a thrwy ddewis. Rydym yn cyrraedd dros ddwy filiwn o blant a theuluoedd bob blwyddyn, gan eu hysbrydoli â llyfrau ac adnoddau i'w rhoi ar ben ffordd ar eu taith ddarllen. Rydym yn darparu ystod eang o lyfrau, adnoddau a chymorth sydd wedi'u curadu a'u dylunio'n ofalus i helpu teuluoedd i ddechrau rhannu storïau a pharhau i ddarllen drwy gydol eu plentyndod. Rydym yn cynnig mwy o gymorth wedi'i dargedu i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus oherwydd ein bod yn gwybod mai'r plant hyn fydd yn elwa fwyaf o fanteision darllen.

Mae ein cymorth yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac mae wedi'i ddylunio i newid ymddygiad at ddarllen. Caiff ei ddatblygu mewn partneriaeth â theuluoedd ac ymarferwyr arbenigol i greu profiadau darllen ar y cyd sy'n llawn ysbrydoliaeth ac sy'n bleserus i blant a theuluoedd.

Diolch i rwydwaith anhygoel o bartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, llyfrgelloedd a mwy ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gallwn gyrraedd teuluoedd lle maen nhw, yn eu cymunedau lleol.

### Dechrau Da

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, cyrhaeddodd ein llyfrau ac adnoddau Dechrau Da dros 700,000 o deuluoedd sydd â phlant yn eu blynyddoedd cynnar, a hynny mewn dros 5,000 o wahanol leoliadau cymunedol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

BookTrust
Getting children reading

### Cysylltwch â ni

queries@booktrust.org.uk

booktrust.org.uk

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol @BookTrust

©2023 BookTrust. Rhif elusen: 313343

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

MRS Awards 2023 Finalist Activation of Insight

